**PWYLLGOR PENSIYNAU 25-3-21**

**Presenoldeb:** Cynghorydd Stephen Churchman - Is Gadeirydd

**Cynghorwyr:**, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, John Pughe Roberts (eitem 6 ymlaen), Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd y Cyngor)
Sioned Parry (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peredur Jenkins a'r Cynghorydd Simon Glyn

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021 fel rhai cywir.

## 5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi gan nodi yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2021/22, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2021/22 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021.

Dymuniad y Pwyllgor Pensiynau oedd caniatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bydd Cyngor Gwynedd yn talu llog priodol i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Amlygwyd bod yr ymarfer yn un sydd yn cael ei benderfynu yn flynyddol gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well gyda'r risgiau wedi ei lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor.

Mae'r swm sydd ar gael i gronni yn amrywio ac wedi tyfu yn ddiweddar i oddeutu £20m-£25m. Mewn trafodaethau diweddar yn y Panel Buddsoddi, argymhellwyd i fuddsoddi hyd at £20m i gronfa ARB PPC- cadarnhaodd y Rheolwr Buddsoddi bod £10m wedi ei fuddsoddi erbyn hyn. Y math o fuddsoddiadau sydd ar gael ar y cyd gyda'r Cyngor a welir yn yr adroddiad ydi Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Awdurdodau eraill, Cronfeydd Marchnad Arian a chronfeydd wedi'i pwlio
.
Prif fanteision yr ymarfer yw denu llog uwch, isafu costau banc ac osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor. Cadarnhawyd mai cadw'r Gronfa yn ddiogel a gwarchod yr arian yw'r flaenoriaeth ac nid cymryd risg.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Nad oedd pwrpas cael strategaeth wahanol
- Y trefniant yn gweithio yn dda

**PENDERFYNWYD:**

- **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys am 2021/22 fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn**

- **Gwneud cais i'r Cyngor (er nad yw yn gorff ar wahân), i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1af o Ebrill 2021 ymlaen.**

## 6. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN Cymru 2021-24

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi dymuniad Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) i bob pwyllgor unigol o fewn y bartneriaeth gymeradwyo eu Cynllun Busnes. Eglurwyd bod y Cynllun Busnes wedi ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu am gymeradwyaeth ar y 24ain o Fawrth 2021 lle argymhellwyd dau addasiad - 2 elfen yn ymwneud a hyfforddiant blynyddol a pholisi datgelu / 'Canu'r Gloch'.

Amlygwyd bod y Cynllun Busnes yn rhoi trosolwg manwl ar yr hyn y mae'r PPC yn ei wneud ynghyd a sut y maent yn cyflawni eu nodau. Ategwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei fonitro yn rheolaidd ac yn cael ei adolygu a'i gytuno yn flynyddol.

Cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r Cynllun Busnes ynghyd a'r ychwanegiadau a argymhellwyd gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru**

## 7. COFRESTR RISG

Cyflwynodd y Rheolwr Buddsoddi a'r Rheolwr Pensiynau y gofrestr risg gyfredol oedd yn amlygu risgiau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn. Amlygwyd bod y gofrestr yn ddogfen weithredol, yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru mewn ymateb i unrhyw risgiau sylweddol sydd yn debygol o ddatblygu.

Amlygwyd bod y gofrestr, ers ei ffurfio, wedi ei chyflwyno i'r Bwrdd Pensiwn yn rheolaidd gyda'r Bwrdd yn adolygu'r cynnwys ac yn cynnig sylwadau ar sgôr y risgiau a fformat y gofrestr. Ers ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2021, amlygwyd bod y risgiau oedd

wedi dyddio wedi eu hadolygu, yr asesiadau wedi eu haddasu a bod y gofrestr yn gyfredol â'r sefyllfa bresennol.

Diolchwyd am y wybodaeth

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Croesawu lliwiau i amlygu risg, er ystyriwyd nad oedd piws yn adlewyrchu 'trychinebus'
- Risg rhif 1.2 – gwrthdaro buddiannau... – angen amlygu'r buddiannau yn glir
- Risg rhif 2.1 – gwneud penderfyniadau amhriodol o ganlyniad i wybodaeth annigonol... – angen cynnwys y Bwrdd Pensiwn fel Rheolaeth Lliniaru i atgyfnerthu'r datganiad – y Bwrdd yn chwarae rôl bwysig drwy herio a chraffu gweinyddiaeth a rheolaeth y Gronfa Bensiwn

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â risg rhif 7.5 - buddion pensiwn yn parhau i gael ei dalu i bensiynwyr sydd wedi marw...' cadarnhawyd bod cais yn cael ei wneud am gopi o'r dystysgrif marwolaeth

**PENDERFYNWYD, derbyn, er gwybodaeth, gynnwys y Gofrestr Risg**

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00am a daeth i ben 11:30am